



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg
10 Gorffennaf 2019
Cofnodion

Preseanol:		
Enw	Teitl	Sefydliad
Alun Michael (AM)	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Alun Morgan (AMg)	Prif Uwch-arolygydd	Heddlu De Cymru
Y Cyngorydd Neil Moore (NM)	Arweinydd	Cyngor Bro Morgannwg
Rob Thomas (RT)	Rheolwr Gyfarwyddwr	Cyngor Bro Morgannwg
Judith Cole (JC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Partneriaethau Cyllid a Gweithlu Llywodraeth Leol	Llywodraeth Cymru
Huw Jakeway (HJ)	Prif Swyddog Tân	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Nadia De Longhi (ND)	Rheolwr Gweithredoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rachel Connor (RC)	Cyfarwyddwr Gweithredol	Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
Emil Evans (EE)	Is-brifathro	Coleg Caerdydd a'r Fro
Rebecca Zammit	Uwch Swyddog Prawf	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Marie Davies	Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Sian Griffiths	Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd/Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddi	Tîm Iechyd Y Cyhoedd BIP Caerdydd a'r Fro,
Hefyd yn bresennol:		
Tom Bowring (TB)	Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes	Cyngor Bro Morgannwg
Helen Moses (HM)	Rheolwr Strategaeth a Phartneriaeth	Cyngor Bro Morgannwg
Lloyd Fisher (LF)	Uwch Swyddog Data a Pholisi	Cyngor Bro Morgannwg
Lorna Cross (LC)	Rheolwr Gweithredol, Eiddo	Cyngor Bro Morgannwg
Anne Wei (AW)	Rheolwr Partneriaeth a Chynllunio Strategol	BIP Caerdydd a'r Fro
Tom Porter (TP)	Ymgynghorydd Meddygol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru

Suzanne Wood	Ymgynghorydd Meddygol Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro/Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiheuriadau:		
Paula Ham (PH)	Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau	Cyngor Bro Morgannwg
Hannah Williams (HW)	Pennaeth De Cymru Un	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Mark Brace (MB)	Comisiynydd Cynorthwyol	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Abigail Harris (AH)	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Chynllunio	BIP Caerdydd a'r Fro
Fiona Kinghorn (FK)	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	BIP Caerdydd a'r Fro
Y Cynghorydd Mike Cuddy (MC)	Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned Enwebedig	Cyngor Tref Penarth

	Camau Gweithredu
<p>1. Croeso a chyflwyniadau</p> <p>Croesawodd RT bawb i'r cyfarfod a bu cyflwyniadau.</p>	
<p>2. Ymddiheuriadau</p> <p>Gweler uchod.</p>	
<p>3. Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p>Esboniodd RT y caiff Cadeirydd ac Is-gadeirydd eu penodi yn unol â chylch gorchwyl y BGC yn ystod y cyfarfod hwn. Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd. Cynigiodd AM i'r Cynghorydd Neil Moore ddod yn Gadeirydd, eiliwyd hyn gan JC. Cynigiodd AM i Maerk Brace barhau fel Is-gadeirydd, eiliwyd hyn gan NM.</p> <p>Penodwyd y Cynghorydd Neil Moore fel Cadeirydd y BGC, a Mark Brace yn Is-gadeirydd y BGC.</p>	
<p>4. Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 9 Ebrill 2019</p> <p>Dywedodd AW y dylid addasu'r drafodaeth ar gyfarfod ar y cyd rhwng BGCau Caerdydd a'r Fro , a chael cyfraniad gan gydweithwyr o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Argymhellwyd y dylid newid y geiriad i adlewyrchu bod yr holl bartneriaid BGC sy'n cymryd rhan yng ngwaith y BPRh mewn sefyllfa dda i adlewyrchu manylion gwaith y BPRh ac i helpu i lunio trafodaethau.</p> <p>Nododd AM fod llawer o gysylltiadau rhwng gwaith y BPRh a'r BGC, ac mae llawer o'r gwaith hwn yn ymwneud â gwaith yr Heddlu, er enghraifft gwaith ar y cyd i fynd i'r afael â PPNau, fodd bynnag, nid yw Heddlu De Cymru yn cael ei gynrychioli ar BPRh Caerdydd a'r Fro. Awgrymodd AM y byddai o fudd i'r Heddlu gael ei gynrychioli er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i weithio ar y cyd. Mae enghreifftiau o waith da sydd wedi'i wneud ar ddull o ddarpariaeth Gofal Iechyd Meddwl sydd wedi bod yn gweithio'n dda yng Ngogledd Cymru ac yng Ngwent ond yn llai effeithiol yn Ne Cymru oherwydd heriau gydag olion traed. Dyma rywbeth y gellid ei ddatrys o bosib drwy weithio gyda'r BPRhau.</p> <p>Holodd NM p'un a oedd trafodaethau gyda'r BPRh ynghylch Heddlu De Cymru yn dod yn aelod o'r Bwrdd. Cynghorodd RC nad oedd trafodaethau wedi bod eto ynglŷn ag aelodaeth Heddlu De Cymru ond ychwanegwyd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel aelodau yn ddiweddar. Dywedodd AM fod trafodaethau wedi eu cynnal rhwng Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru, Cadeirydd y BIP a Chadeirydd y BPRh ar y mater o ddarpariaeth iechyd meddwl. Cydnabyddir bod goblygiadau ar draws y rhanbarth yn ogystal â chyfle i gyflwyno gwaith ar gyfer y dyfodol i'r BPRh.</p>	NM

<p>Cytunwyd y gwneir argymhelliad gan gadeirydd y BGC i'r BPRh yn awgrymu y gellid ymestyn gwahoddiad am aelodaeth i Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.</p> <p>Yn amodol ar newidiadau yn y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol, cytunwyd eu bod yn gofnod cywir.</p>	
<p>5. Adroddiad Blynyddol BGC</p> <p>Cyflwynodd HM Adroddiad Blynyddol BGC 2019. Esboniwyd bod y canllawiau statudol ar gyfer y BGC yn pennu gofyn i'r BGC gyhoeddi Adroddiad Blynyddol dim hwyrach na phedwar mis ar ddeg ar ôl cyhoeddi Cynllun Llesiant y BGC a fesul 12 mis o hyn ymlaen. Dosbarthwyd adroddiad ysgrifenedig i'w adolygu, mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg o waith sydd wedi ei gyflawni er mwyn bwrw ymlaen gyda chamau ac amcanion a nodir yn y Cynllun Llesiant yn ei flwyddyn gyntaf. Yn amodol ar gymeradwyaeth, caiff yr Adroddiad Blynyddol ei gyhoeddi ar wefan y BGC a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Craffu yr Awdurdod Lleol a enwebir. Dyma flwyddyn gyntaf o weithio i fwrw ymlaen gyda'r Cynllun, ac felly mae'r Adroddiad Blynyddol wedi dangos y cysylltiadau rhwng gwahanol weithgareddau a sut y maent at ei gilydd yn cyflawni'r Pedwar Amcan Llesiant. Bydd yr arweinwyr strategol sy'n gyfrifol am fwrw ymlaen gydag Amcanion Llesiant y BGC yn parhau i gwrdd â'i gilydd er mwyn nodi cyfleoedd am waith ar y cyd ac i sicrhau y caiff cynnydd ei gyflawni. Byddai gweithdy, fydd yn cynnwys yr holl bobl hynny sy'n arwain ar weithgareddau, yn cael ei drefnu yn ystod yr hydref gyda golwg ar fwrw ymlaen â'r cam cyflawni nesaf, ac i nodi prif flaenoriaethau.</p> <p>Crëwyd hefyd ffilm ar yr Adroddiad Blynyddol i gyd-fynd â'r adroddiad ysgrifenedig, bydd hyn yn galluogi cynulleidfaoedd ehangach i ymgysylltu â gwaith y BGC.</p> <p>Dangoswyd y ffilm i'r BGC ei hadolygu. Nododd AM fod y ffilm yn ddefnyddiol iawn gan ei bod yn cydweddu â'r adroddiad ac yn cynnig fersiwn mwy hygyrch o'r adroddiad ysgrifenedig. Holodd AM a oedd esboniad yn yr adroddiad o'r cysylltiadau rhwng y BGC a'r Bartneriaeth diogelwch cymunedol. Esboniodd HM nad oedd hyn wedi ei nodi'n benodol yn yr Adroddiad, fodd bynnag, roedd hyn yn rhan sylweddol o'r gwaith i fwrw ymlaen gyda'r Cynllun a bydd y BGC yn datblygu'r cysylltiadau rhwng y Bartneriaeth diogelwch cymunedol. Nododd AM fod angen uwchgyfeirio problemau sy'n berthnasol i ddiogelwch cymunedol o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i bartneriaid BGC. Dywedodd AW fod yr Adroddiad Blynyddol sy'n gyfuniad o ffilm ac adroddiad yn ddull hynod ddefnyddiol ac uchelgeisiol.</p> <p>Ardystiwyd a chytunwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y BGC.</p>	<p>HM</p>
<p>6. Cynnydd ar Amcan Pedwar: Diogelu, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd</p> <p>Cyflwynodd ND y diweddariad manwl ar gyfer Amcan Pedwar o'r Cynllun Llesiant y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig arweiniad strategol arno. Esboniodd ND fod yr amgylchedd wedi cael ei amlygu yn agwedd bwysig o</p>	

fywyd yn y Fro gan drigolion ac yn allweddol i ategu llesiant da. Mae llawer o waith yr Amcan hwn yn cysylltu â chamau drwy gydol y cynllun, ac mae enghreifftiau o waith da yn mynd rhagddo.

Gwyrddo'r ystâd gyhoeddus: Mae holiadur cychwynnol wedi'i ddsbarthu i bartneiriaid er mwyn noddi'r dulliau presennol o reoli tir ac ystadau a sut gellir helpu partneriaid i gyflawni eu dyletswyddau Bioamrywiaeth dan adran 6 o Ddedd yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Caiff yr arolwg cychwynnol ei ymestyn nawr i'r holl bartneiriaid gan gynnwys partneriaid rhanbarthol megis Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Heddlu De Cymru.

Adolygu asedau tir cyhoeddus: Esboniodd LC gefndir y gwaith rhanbarthol o Reoli Asedau ar y Cyd ledled Bro Morgannwg a Chaerdydd sy'n cynnwys y ddau Awdurdod Lleol, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi ei sefydlu drwy Strategaeth Genedlaethol Ystadau Cymru y'i nod cyffredinol yw "Gweithio gyda'n gilydd i fanteisio i'r eithaf ar yr ystâd gyhoeddus". Mae chwe grŵp rhanbarthol ledled Cymru wedi eu creu ac mae cyllid wedi'i wneud ar gael ar gyfer projectau asedau cydweithredol penodol yn y rhanbarthau drwy Gyllid Cymru Rhaglen Gydweithredu Asedau Llywodraeth Cymru. Yn dilyn astudiaeth gychwynnol yn rhanbarth Cwm Taf mae'r grwpiau hyn nawr yn symud i fapio asedau a gweithio ar gydleoeliadau. Mae project rhanbarthol Caerdydd a'r Fro o'r enw Adolygiad Gwneud i Asedau Weithio (AGAW) wedi penodi cwmni ymgynghorol Fradd i adrodd ar ddata allweddol sy'n berthnasol i: Fapio Asedau Partneriaid Cydweithredu ar Asedau Partneriaeth, barn Rhanddeiliaid, cyfleoedd mewn ardaloedd â thwf mawr/ardaloedd ffiniol a chreu astudiaethau achos. Crëwyd mapiau o dair ardal allweddol: Caerdydd, Bro Morgannwg a'r Ardaloedd Trawsffiniol, sy'n dangos Cyffordd 33-34 coridor yr M4 yn benodol. Creodd yr adroddiad AGAW grynodedb o brojectau asedau cydweithredol ar draws y rhanbarth ynghyd â chyfleoedd ar gyfer projectau braenaru posibl. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau am ailffurfio grŵp Rheoli Asedau y Sector Cyhoeddus yn ardal Bro Morgannwg a chaiff cyfarfod ei drefnu ar gyfer y grŵp hwn.

Nododd AM fod adolygiad cynhwysfawr wedi ei gynnal ar ystâd yr Heddlu ledled De Cymru ac mae'r Fro yn enghraifft dda o gyd-leoli gyda chydweithwyr o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Dyfodol sydd wedi eu lleoli erbyn hyn yng ngorsaf heddlu y Barri. Dywedodd HJ fod posibilrwydd i integreiddio y gwaith ar y cyd hwn gyda'r gwaith rheoli asedau ar y cyd sydd wedi ei sefydlu gan bartneiriaid y Gwasanaethau Brys. Gofynnodd RC p'un a fyddai'r adroddiad AGAW ar gael i'r BGC. Esboniodd LC fod yr adroddiad ar gam drafft ar hyn o bryd ond y gallai fod ar gael ar ôl cael ei gwblhau.

Nododd AM fod adolygiad cynhwysfawr wedi ei gynnal ar ystâd yr Heddlu ledled De Cymru ac mae'r Fro yn enghraifft dda o gyd-leoli gyda chydweithwyr o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Dyfodol sydd wedi eu lleoli erbyn hyn yng ngorsaf heddlu y Barri. Dywedodd HJ fod posibilrwydd i integreiddio y gwaith ar y cyd hwn gyda'r gwaith rheoli asedau ar y cyd sydd wedi ei sefydlu gan bartneiriaid y Gwasanaethau Brys. Gofynnodd RC p'un a fyddai'r adroddiad AGAW ar gael i'r BGC. Esboniodd LC fod yr adroddiad ar gam drafft ar hyn o bryd ond y bydd ar gael ar ôl cael ei gwblhau.

LC/HM

Nododd ND fod cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn nifer o'r camau a aliniwyd i Amcan Pedwar. Mae'r rhaglen REFIT eisoes wedi cychwyn ar safleoedd y BIP gan gynnwys Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Athrofaol Llandochoau ac Ysbyty'r Barri; mae hyn yn cynnwys rhaglen i newid goleuadau gyda rhai LED. Mae gwaith ailwylltio wedi cychwyn ym Mharc Gwledig Porthceri, gan gynnwys gwaith gwella pwll a datblygu gofod dolydd. Mae project Bwyd y Fro wedi diweddarau map yr asedau bwyd ac mae'n gweithio i fodloni meini prawf Efydd y Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy gyda'r nod o gyflwyno cais am aelodaeth yn ystod yr Hydref. Mae CNC hefyd wedi bod wrthi'n cynnal gwaith yn lleol yn ardal Coldbrook/Tregatwg/ardal Sully Brook yn y Barri. Mae gwaith wedi'i gynnal gyda grwpiau cymunedol drwy'r fenter "Cyrsiau Dŵr ar Gyfer Llesiant" i leihau'r perygl o lifogydd wrth roi gwybod am y buddion o ofalu am gyrsiau dŵr. Mae gwaith newydd wedi'i gynnal gydag ysgolion lleol i godi ymwybyddiaeth a rhannu prif negeseuon.

Hyrwyddo a Hwyluso Teithio Cynaliadwy: Cyflwynodd TP y cyfle i ddatblygu Siarter Teithio Iach ar gyfer Bro Morgannwg. Eglurwyd bod y ffordd rydym yn teithio nawr wedi newid, a bod ein hamgylcheddau adeiledig wedi eu llywio gan y newid hwn. Mae'r cynnydd mewn teithiau car yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant; fodd bynnag, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cyflwyn Metro De Cymru, ynghyd â deddfwriaeth ategol a mudiadau cymdeithasol cefnogol, yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â'r her hon.

Esboniwyd bod Siarter Teithio Iach Caerdydd wedi'i lansio ym mis Ebrill a bod siarter y sector cyhoeddus wedi'i ddrafftio ar gyfer Bro Morgannwg gyda chytundeb mewn egwyddor wedi'i lunio gyda mwyafrif y sefydliadau. Byddai'r Siarter yn gosod 14 ymrwymiad, fydd yn cynnwys mwy na theithio llesol yn unig, ond hefyd teithio cynaliadwy ac iach. Disgwylir y gallai siarteri sector gael eu datblygu wedyn gan gynnwys Siarter y Trydydd Sector, a'r Siarter Fusnes a'r Siarter Addysg Uwch.

Nododd LC fod trafodaethau wedi eu cynnal yn y project cydweithredu asedau ynglŷn â chefnogi dull o'r fath yn arbennig wrth sefydlu'r seilwaith i gefnogi cerbydau allyriadau isel, fodd bynnag, mae cost y gwaith hwn ar hyn o bryd yn rhwystr. Esboniodd JC fod cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gael y gellir cael gafael arno er mwyn cefnogi projectau lleihau carbon fel hyn. Cynigiodd JC y byddai o fudd i Lywodraeth Cymru ymuno â'r Siarter yn y Fro gan fod llawer o staff yn teithio o Fro Morgannwg i'r gwaith. Dywedodd AM y byddai'n hapus i Heddlu De Cymru ymuno â'r Siarter, a bod y gwaith hwn yn cynnig cyfle i ymgysylltu trafodaethau o amgylch dolen Pentir Penarth ynghyd â chyfleoedd ar gyfer cysylltiadau actif ac iach rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd.

Eglurodd HM y bydd ymuno â'r Siarter yn ffurfiol ar yr agenda ar gyfer cyfarfod BGC sydd i'w drefnu ym mis Hydref.

HM/TP

7. Our Vale – Ein Bro Sail Dystiolaeth

Cyflwynodd HM Sail Dystiolaeth BGC sydd wedi ei datblygu dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn dilyn y newidiadau demograffig ym Mro Morgannwg, ac i sicrhau y cedwir y dysgu a'r data a gesglir drwy'r Asesiad Llesiant mor gyfredol â phosibl. Bydd datblygu sail dystiolaeth hefyd yn darparu sylfaen i lunio asesiad

llesiant nesaf y BGC. Mae'r tîm Strategaeth â Phartneriaeth wedi gweithio gydag ymgynghorydd allanol gan ddefnyddio rhywfaint o arian grant y BGC a gafodd ei ddyrannu i sicrhau bod y data a'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r Asesiad Llesiant yn fwy hygyrch.

Esboniodd LF fod y sail dystiolaeth wedi ei hadeiladu gan ddefnyddio Microsoft PowerBI sy'n ddull delweddu data pwerus. Mae PowerBI yn galluogi setiau data mawr i'w tynnu drwedd mewn delweddau data hygyrch gan gynnwys graffiau, mapiau a thablau. Mae'r sail dystiolaeth newydd yn galluogi defnyddwyr i ryngweithio gyda'r delweddau hyn ac edrych ar y data sydd y tu ôl iddynt. Defnyddiwyd yr adroddiad a grëwyd i ddangos rhagamcanion poblogaeth ar gyfer y Fro fel enghraifft i ddangos sut y gellir rhyngweithio â'r data hwn ar lefel y Fro, i'r ardaloedd cymunedol a ddefnyddir yn yr Asesiad Llesiant i ardaloedd LSOA unigol.

Er mwyn annog y defnydd o sail dystiolaeth mae'r adroddiadau wedi eu cadw yn gymharol syml =, caiff y data ei gyflwyno yn erbyn pedwar prif thema.

- Newid yn y Boblogaeth
- Addysg a'r Economi
- Iechyd a Chymunedau
- Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Esboniwyd fod llawer o'r data yn y sail dystiolaeth wedi ei gysylltu yn uniongyrchol â rhai o'r ffynonellau data cynradd megis StatsCymru a DataCymru, fel y cyfryw, caiff y data mwyaf cyfredol yn cael ei dynnu yn y sail dystiolaeth. Mae cyfle hefyd i ddatblygu'r sail dystiolaeth ymhellach a datblygu adroddiadau unigol penodol megis y gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar i mewn i dlodi ac amddifaded yn y Fro.

Cafodd y sail dystiolaeth ei derbyn yn dda gan y Bwrdd gan bartneriaid yn nodi'r potensial ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Awgrymodd AM y gellid ychwanegu ystadegau troseddau eraill, yn enwedig, gwybodaeth ychwanegol ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Nododd HJ fod llawer o botensial gyda'r sail dystiolaeth ac awgrymodd y gellid ei defnyddio gan bartneriaid i gefnogi dadansoddiad o dueddiadau yn y dyfodol.

8. Diweddariad ar Gynllun Gwasanaethau Clinigol y BIP

Cyflwynodd MD drosolwg o Strategaeth Llesiant y BIP Llunio ein Dyfodol sy'n nodi cyfeiriad y BIP a manylion ynghylch sut bydd darparu gwasanaeth yn newid. Mewn ymateb i'r strategaeth, dyluniwyd Cynllun Gwasanaethau Clinigol ar y cyd â rhanddeiliaid er mwyn cymryd i ystyriaeth bob agwedd ar ddarpariaeth y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Cynllun yn gosod dull system gyfan, sy'n manylu ymhle y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae wedi ei ddylunio i fod yn Gynllun ailadroddol er mwyn galluogi gwasanaethau i ymateb i heriau wrth iddynt godi. Agwedd allweddol ar y Cynllun yw cynnig cymorth yn agosach at gartrefi pobl, gan eu galluogi i aros gartref am gyfnod hirach. Caiff hyn ei gyflawni drwy rwydwaith

<p>integredig o ofal ysbyty a chymunedol a llesiant. Mae Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gweithio ar dri lleoliad ar hyn o bryd, dau yng Nghaerdydd ac un sy'n cynnwys Bro Morgannwg, mae tri chlwtwr yn y Fro. Mae'r cynllun yn nodi y caiff Canolfan Iechyd a Llesiant ei sefydlu ym mhob lleoliad BIP a chadarnhawyd a chytunwyd eisoes mai Ysbyty y Barri fydd y ganolfan Iechyd a Llesiant ar gyfer gwasanaethau'r Fro. Ochr yn ochr â'r ganolfan caiff Hybiau Llesiant eu sefydlu, un o leiaf ym mhob ardal glwtwr. Bydd yr Hybiau hyn yn ganolfan darparu gwasanaeth integredig ar gyfer yr holl bartneriaid, esboniwyd bod rhaglen dreialu ar gyfer y dull hwn yn cael ei chynnal drwy waith ar y cyd i sefydlu hwb llesiant yn Cogan.</p> <p>Un o brif heriau a wynebir gan y BIP yw nad yw safleoedd ysbyty presennol yn addas i'w pwrpas. Mae cais wrthi'n cael ei baratoi ar gyfer amnewid safle presennol Ysbyty Athrofaol Cymru. Bydd y dull o rannu gwasanaethau yn y safleoedd hyn yn allweddol er mwyn datblygu'r cynllun. Er mwyn llywio'r ddull cynhelir trafodaethau gyda chlinigwyr am rôl dyfodol safleoedd Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochau. Caiff hyn ei lywio ymhellach gan ymgynghoriad â'r cyhoedd a gynhelir yn ystod hydref gaeaf 2019. Disgwylir y daw Ysbyty Athrofaol Cymru yn ganolfan gwasanaethau aciwt ar gyfer rhanbarthau y de-ddwyrain, de canolbarth a Chaerdydd a'r Fro. Caiff rôl ac ymateb Ysbyty Athrofaol Llandochau i lawdriniaethau sydd angen arhosiad yn yr ysbyty eu datblygu ymhellach a bydd rhai gwasanaethau yn cael eu symud o Ysbyty Rookwood i Ysbyty Athrofaol Llandochau.</p> <p>Eglurwyd y caiff yr holl newidiadau mewn gwasanaeth eu mesur yn erbyn claf cynrychioladol y BIP, sef Wyn, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddinasyddion ac wedi eu dylunio i sicrhau diogelwch a llesiant y claf. Bydd y strategaeth ymgysylltu ddrafft, a ddefnyddir i lywio datblygiad y Cynllun yn y dyfodol yn cael ei chyflwyno yn ôl i'r Bwrdd yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn i'w thrafod.</p> <p>Gofynnodd NM p'un a oedd y safleoedd ar gyfer yr Hybiau Clwtwr wedi eu pennu. Esboniodd MD nad oedd yr holl safleoedd wedi eu penderfynu eto, a bod un Hyb fesul clwtwr yn ddull nad oedd yn un terfynol eto gan y gallai fod ardaloedd addas am fwy nag yn Hyb. Nododd AM y bydd y dull Hyb yn darparu llawer o gyfleoedd i integreiddio gwasanaethau a chyd-leoli buddion penodol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.</p>	<p>AW</p>
<p>9. Strategaeth Ddrafft: Symud Mwy, Bwyta'n Dda</p> <p>Cyflwynodd SW strategaeth ddrafft Symud Mwy, Bwyta'n Dda ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg i'r Bwrdd. Esboniwyd bod y strategaeth wedi ei llunio gan ddau weithdy poblogaidd, un ym Mro Morgannwg ac un yng Nghaerdydd. Drwy'r gweithdai, datblygwyd nifer fawr o gamau gweithredu, lluniwyd y rhain mewn blaenoriaethau sydd o dan dair thema allweddol sy'n cysylltu â Strategaeth Pwysau Iach Genedlaethol i Gymru. Sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Lleoliadau Iach - Amgylcheddau Iach - Pobl Iach 	

<p>Yn dilyn gwaith i droi'r camau yn flaenoriaethau, cynhaliwyd gweithdy ar y cyd gyda BGC Caerdydd a BGC y Fro er mwyn helpu i drefnu'r blaenoriaethau fesul ardal. Datblygwyd cerrig milltir yn erbyn pob blaenoriaeth ac mae'r rhain wedi eu halinio i waith a amlygwyd yng Nghynllun Llesiant y BGC. Disgwylir y caiff y strategaeth ei lansio ar ôl yr hydref er mwyn alinio â lansiad y Strategaeth Pwysau Iach Genedlaethol i Gymru.</p> <p>Holodd TB p'un a yw Penaethiaid wedi cyfrannu at y cerrig milltir sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad y filltir ddyddiol ac egwylliau digon hir yn yr ysgol. Esboniodd SW fod trafodaethau wedi eu cael gydag arweinwyr ysgolion iach ynghylch y cerrig milltir hyn ond y byddai cyfraniad y Penaethiaid yn fuddiol. Cynigiodd TB fod manylion cyswllt y Penaethiaid yn cael eu rhoi i SW.</p> <p>Esboniodd NM y gellid rhoi ystyriaeth i wahanol anghenion y gwahanol grwpiau oedran yn y sector cynradd, gallai ymrwymiad i filltir dyddiol er enghraifft fod yn fwy priodol i rai grwpiau oedran nag eraill. Nododd ND fod cysylltiadau posibl rhwng y filltir ddyddiol a chamau yn y Cynllun Llesiant o amgylch teithio llesol a'r posibilrwydd mewn rhai ardaloedd i blant deithio i'r ysgol yn y ffordd hon. Nododd NM fod gwaith wedi ei gynnal i ddiweddarau gorsafoedd ail-lenwi dŵr mewn parciau ledled y Fro, gellid cysylltu'r gwaith hwn â'r flaenoriaeth yn y strategaeth i ddod yn rhanbarth ail-lenwi a'i gyflwyno i'r ardal gyhoeddus. Esboniodd HM y bydd angen sicrhau bod y cerrig milltir yn y Strategaeth a'r camau a nodwyd yn y Cynllun Llesiant yn cael eu cyfuno er mwyn rhoi canolbwynt i'r gwaith. Mae cyfle i fwrw ymlaen gyda rhywfaint o'r gwaith drwy dargedu ardaloedd daearyddol penodol yn y Fro lle ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod rhagor o bryderon o ran cyflawni'r canlyniadau gorau.</p> <p>Cytunodd y BGC i fwrw ymlaen gyda'r Strategaeth Symud Mwy, Bwyta'n Dda.</p>	HM
<p style="text-align: center;">10. Cyflwyniad: Pwysau ar Gyllideb Cyngor Bro Morgannwg ac Ail-lunio Rhaglen Gweddnewid Gwasanaethau</p> <p>Gwnaeth TB gyflwyniad ar y pwysau ar y gyllideb a'r newid yn y gwasanaeth a wnaed gan y Cyngor drwy'r Rhaglen Gweddnewid Ail-lunio Gwasanaethau. Eglurwyd bod y Cyngor wedi gwneud arbedion gwerth £55 miliwn, ers 2010, ac y bydd hyn yn arwain at 25% o ostyngiad yn y gyllideb yn gyffredinol erbyn 2021. Cyflawnwyd y gostyngiadau hyn drwy nifer o newidiadau i wasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, llyfrgelloedd cymunedol, gwaith i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ac am gyfnod byr, drwy gyflwyno Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol. Mae ymgorffori'r newidiadau hyn wedi bod yn dibynnu ar rymuso cymunedau i alluogi cymunedau i ymgymryd â phrojectau, ond hefyd i gyflawni newid i ddiwylliant sefydliadol y Cyngor.</p> <p>Esboniwyd y caiff Cynllun Corfforaethol newydd ei ddatblygu eleni a bydd yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn cael ei osod yng nghyd-destun y £12 miliwn pellach o ostyngiad yn y gyllideb a ragwelir, ac felly bydd yn gosod blaenoriaethau uchelgeisiol ond posibl ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ac ar ei Gyllideb. Cynhelir ymarfer ymgysylltu o dymor yr hydref a chyflwynir manylion y broses ymgysylltu a'r cynnydd o ail-lunio gwasanaethau yn ôl i'r BGC i'w trafod maes o law.</p>	TB

<p>Nododd HJ fod yr holl bartneriaid yn mynd drwy gyfnod o drawsnewid ar hyn o bryd a bod trafodaethau yn y BGC yn allweddol i nodi sut gall partneriaid gydweithio a gweithio gyda'i gilydd i nodi'r heriau hyn. Awgrymodd NM y dylid neilltuo amser i drafod a nodi cyfleoedd yn eitem reolaidd ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.</p>	<p>HM</p>
<p>11. Y Flaenraglen Waith</p> <p>Nododd AM y byddai'n hynod ddefnyddiol os gallai diweddariad ar ddiogelwch cymunedol fod yn eitem sefydlog ar yr agenda, byddai hyn yn galluogi problemau i gael eu huwchgyfeirio o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i'r BGC yn ôl yr angen. Cytunwyd y byddai hyn yn eitem sefydlog ar yr agenda.</p> <p>Dywedodd HM y caiff y dyddiadau sydd ar hyn o bryd mewn dyddiaduron ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu newid a chaiff dyddiadau eraill eu trefnu ar gyfer mis Hydref a Thachwedd. Eglurwyd yn dilyn gweithdy BGC gyda Chomisiynydd Hawliau Plant Cymru y cytunwyd y dylid estyn gwahoddiad i Fforwm Ieuenctid Bro Morgannwg i fynychu cyfarfodydd y BGC yn y dyfodol. Mae cyfle hefyd i ymestyn y gwahoddiad hwn i'r gwirfoddolwyr Ieuenctid yn yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân. Awgrymwyd y dylid cynnal y cyfarfod hwn yn hwyrach yn y prynhawn er mwyn galluogi grwpiau Ieuenctid i fynychu. Awgrymodd NM y gallai hyn fod yn gyfarfod mewn dwy ran gyda busnes y BGC yn cael ei gynnal cyn trafodaethau gyda'r grwpiau Ieuenctid. HM i estyn gwahoddiad i'r grwpiau Ieuenctid a chadarnhau trefniadau ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.</p>	<p>HM</p> <p>HM</p>
<p>12. Unrhyw Fater Arall</p> <p>Dywedodd NM fod Huw Isaac, Pennaeth Perfformiad a Datblygu yn Flaenrol wedi ymddeol o'i rôl. Awgrymwyd y dylid drafftio llythyr i ddiolch iddo am ei waith gyda'r BGC.</p>	<p>HM</p>
<p>13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Dyddiadau i'w cadarnhau.</p>	